

Roisha Hughes CBE



Role

Ymddiriedolwr Arweiniol ar gyfer Cymorth Grant ac Ariannu Nad yw'n Dod o'r Loteri
Mae gan Roisha Hughes ugain mlynedd o brofiad o weithio wrth galon gwasanaethau cyhoeddus yn Llundain ac mewn Llywodraeth genedlaethol. Mae hi bellach yn rhedeg ei hymgynghoriaeth ei hun.

Ganed Roisha yn Belfast ac fe'i magwyd yn Ne Llundain cyn astudio ieithoedd modern a chanoloesol ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Dechreuodd Roisha ei gyrfa yn y gwasanaeth sifil yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan weithio ar gais Llywodraeth y DU i gynnal Gemau Olympaidd 2012. Yna bu'n rhedeg swyddfa Maer Llundain am wyth mlynedd o 2008, wrth i'r ddinas lywio dirywiad economaidd, uwchraddio a datblygu systemau trafnidiaeth newydd, a chynnal y Gemau Olympaidd yn 2012.

Yn 2016 ymunodd Roisha â'r Heddlu Metropolitan fel Cyfarwyddwr Strategaeth a Llywodraethu, rôl a amrywiodd o wella'r ffordd y defnyddiodd y Met ddata i ddod â'r Farwnes Casey i mewn i adolygu diwylliant a safonau'r Met.

Mae Roisha yn byw yn Ne Llundain gyda'i thri o blant.